



# Uned 24
# Nod y wers heddiw ydy: adolygu a'r amherffaith

## Tipyn o Hanes







Pryd roedd....?

O .... tan ......

Rhwng ...... a ......

**Pryd roedd Oes y Tuduriaid?**

O un pedwar wyth pump tan un chwech dim tri.

Rhwng un pedwar wyth pump ac un chwech dim tri.



Pryd roedd Oes y..........?

O .... tan ......

Rhwng ...... a ......



Pryd roedd ................?

O .... tan ......

Rhwng ...... a ......



Pryd roedd Oes y ……….?

O …. tan ……

Rhwng …… a ……



Pryd roedd Oes ............?

O .... tan ......

Rhwng ...... a ......



Pryd roedd y…………..?

O …. tan ……

Rhwng …… a ……





# Yr Ail Ryfel Byd



Beth roedd y bobl yn **wneud** yn ystod yr Ail Ryfel Byd?

Roedd y bobl yn tyfu bwyd.

Roedd y plant yn dysgu garddio.

Roedd y merched yn garddio.

Roedd y merched yn trin y tir.





# Yr Ail Ryfel Byd

Beth roedd y bobl yn **wneud** yn ystod yr Ail Ryfel Byd?

Roedd y bobl yn cysgu mewn lloches Anderson.



# Yr Ail Ryfel Byd

Beth roedd y bobl yn **wneud** yn ystod yr Ail Ryfel Byd?

Roedd y dynion yn ymladd.

Roedd rhai plant yn symud o'r dref i'r wlad. Faciwîs oedden nhw.

Doedden nhw ddim yn gwylio'r teledu.

Doedden nhw ddim yn chwarae gemau cyfrifiadur.

# Yr Ail Ryfel Byd

Beth roedd y bobl yn **wneud** yn ystod yr Ail Ryfel Byd?










# Yr Ail Ryfel Byd

Beth roedd y bobl yn **wneud** yn ystod yr Ail Ryfel Byd?





# Yr Ail Ryfel Byd

- Beth roedd y bobl yn **wisgo** yn ystod yr Ail Ryfel Byd?

Roedd y dynion yn gwisgo trowsus, crys a siwmper.

Roedd Merched y Tir yn gwisgo trowsus brown a siwmper werdd.

Roedden nhw’n gwisgo mwgwd nwy weithiau.

Doedden nhw ddim yn gwisgo dillad ffansi.

# Fideo bach diddorol am ddillad yn ystod yr Ail Ryfel Byd!



# Yr Ail Ryfel Byd

- Beth roedd y bobl yn **wisgo** yn ystod yr Ail Ryfel Byd?









# Yr Ail Ryfel Byd

Cofiwch am y treiglad meddal mewn cwestiwn – Beth...?

Beth roedd y bobl yn **fwyta** yn ystod yr Ail Ryfel Byd?

Roedd y bobl yn bwyta bwyd o'r ardd.
Roedden nhw'n bwyta wyau powdr.
Doedd y bobl ddim yn bwyta llawer o siocled.
Doedden nhw ddim yn bwyta llawer o wyau.

Oedd y bobl yn bwyta ....

Oedden / Nac oedden

# Yr Ail Ryfel Byd

Oedd y bobl yn bwyta ….

Oedden / Nac oedden














Ble roedd y bobl yn **siopa** yn ystod yr Ail Ryfel Byd?

Roedd y bobl yn siopa mewn siopau bach.

Doedd y bobl ddim yn siopa mewn archfarchnad.

Doedden nhw ddim yn siopa mewn siopau mawr, smart.

Sut roedd y bobl yn siopa?

Roedd y bobl yn defnyddio cwpons ac arian.

Doedden nhw ddim yn prynu bananas

Doedd dim llawer o fwyd yn y siopau.



# Yr Ail Ryfel Byd

Beth roedd y bobl yn **fwynhau** yn ystod yr Ail Ryfel Byd?

- Roedd y bobl yn gwrando ar y radio.
  Roedd y plant yn chwarae gyda marblis.
  Roedd y bobl yn mwynhau mynd i'r sinema.
  Doedden nhw ddim yn chwarae gemau cyfrifiadur.

# Yr Ail Ryfel Byd

Beth roedd y bobl yn **fwynhau** yn ystod yr Ail Ryfel Byd?








# Yr Ifaciwîs

Trafodwch

Cwestiynau:

Beth roedd yn digwydd?
Pam roedden nhw'n gadael?

Sut roedden nhw'n teimlo?
Beth roedden nhw'n wisgo?
Beth roedden nhw'n ddisgwyl?
Beth roedden nhw eisiau?

Sut roedd eu rhieni'n teimlo?
Oedden nhw'n hapus?

Geirfa

| | |
|---|---|
| **faciwîs** | *evacuees* |
| **Llundain** | *London* |
| **bomio** | *bombing* |
| **Ail Ryfel Byd** | *Second World War* |
| **amddiffyn** | *to protect* |
| **diogel** | *safe* |
| **cyrchoedd awyr** | *air raids* |






HALF



# Cymharu

| **Heddiw….** | | **Yn ystod yr Ail Ryfel Byd** |
|---|---|---|
| Dw i'n chwarae pêl-droed | ac | roedd y plant yn chwarae pêl-droed. |
| Dw i'n bwyta llysiau a ffrwythau | ac | roedd y bobl yn bwyta llysiau a ffrwythau hefyd. |
| Dw i'n chwarae gemau cyfrifiadur | ond | doedd y plant ddim yn chwarae gemau cyfrifiadur – roedden nhw'n chwarae dominos a marblis. |

# Mat iaith – Gwers hanes



## Tipyn o Hanes





Pwy ydy hwn?
Ble roedd e'n byw?
Pryd cafodd e ei eni?
Pryd buodd e farw?



Pwy ydy hon?
Ble roedd hi'n byw?
Pryd cafodd hi ei geni?
Pryd buodd hi farw?

Pryd digwyddodd _____ ? Yn ...

Pryd roedd y _____ yn byw? Roedd y _____ yn byw yn...

Ble roedden nhw'n byw? Roedden nhw'n byw yn _____.

Beth roedden nhw'n fwyta? Roedden nhw'n bwyta ....

wneud?

wisgo?



⇒ _______ ydy hwn / hon .

⇒ Roedd e'n / hi'n byw yn _____ .

⇒ Cafodd e ei eni / hi ei geni yn _____ .

⇒ Buodd e / hi farw yn _____ .



| CYFNODAU HANESYDDOL | |
|---|---|
| Y Rhyfel Byd Cyntaf | Y Normaniaid |
| Yr Ail Ryfel Byd | Y Llychlynwyr |
| Y Tuduriaid | Yr Eifftwyr |
| Y Stiwartiaid | Yr Oes Haearn |
| Y Celtiaid | Oes Fictoria |
| Y Rhufeiniaid | Oes y Tuduriaid |

Gwrandewch ar Nan Thomas yn siarad.

Ysgrifennwch gymaint o ffeithiau amdani hi ag y gallwch.
(Cliciwch ar y llun i agor y ffeil sain)



Cywir neu Anghywir

1. Es i i Ysgol Eglwys Wen yn Sir Benfro X
2. Es i i Gapel Bethebara yn Sir Benfro. ✓
3. Pan dechreuodd y Rhyfel, roeddwn i wedi dechrau ysgol. ✓
4. Roeddwn i'n cerdded dwy filltir i'r ysgol bob dydd. X
5. Roeddwn i'n gwau dillad i'r milwyr. ✓
6. Roedd milwyr o America a Chanada ar y mynydd. Roedden nhw'n ymarfer ar y mynydd. X

**Cywir neu Anghywir**

1. Roedden nhw'n ymarfer ar y y Preseli X
2. Roeddwn i'n clywed y drylliau yn y gwely bob nos. ✓
3. Doedd dim Saesneg yn yr ardal. X
4. Doedd Mam ddim yn siarad Saesneg. X
5. Daeth y faciwîs ac roedd rhaid i ni ddysgu Saesneg. ✓
6. Roeddwn i eisiau faciwî. X
7. Does dim llawer o Gymraeg yn y Preseli nawr. ✓

Edrychwch ar y lluniau sy'n dangos
bywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Meddyliwch am gwestiwn am bob un o'r lluniau canlynol.

Gofynnwch y cwestiynau i'ch partner chi.

Yna, trafodwch y llun – beth arall rydych chi'n gallu weld yn y llun?

# Yr Ifaciwîs



# Merched y tir



# Milwr



# Trafodwch!

- Pan oeddwn i yn yr ysgol, roeddwn i'n dwlu ar Hanes achos  roedd y gwersi yn ddiddorol ac roeddwn i'n hoffi'r straeon.

- Hefyd roedd yr athro Mr. Evans yn wych.  Roedd e'n mynd â ni allan i weld olion *(remains)* o fryngaerau'r Celtiaid a heol Rufeinig – Sarn Helen.

Nawr, siaradwch am eich profiad chi yn yr ysgol.